Tymor yr Hydref 2024   Branwen

Annwyl Rieni/Warchodwr,

Dyma grynodeb o’r gwaith bydd eich plentyn yn gwneud yn ystod y tymor nesaf.

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Trwy ein sesiynau iaith a thematig bydd disgyblion yn datblygu eu gallu i ddewis strategaethau ieithyddol i greu effaith yn y Gymraeg a’r Saesneg, yn eu gwaith llafar ac ysgrifenedig: gan edrych yn fanwl ar ddewisiadau, agoriadau brawddeg, defnydd o atalnodi cymhleth, geirfa helaeth (gan gynnwys geirfa bynciol) a chysyllteiriau. Bydd ystod eang o gyfleoedd darllen yn eu helpu i ddatblygu sgiliau darllen megis mynegiant, llithr ddarllen, cip ddarllen a chrynhoi a darllen rhwng y llinellau. Bydd disgyblion yn cael eu cefnogi i ddod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio geiriadur, thesawrws a rhestri termau. Byddwn yn parhau i ymarfer llawysgrifen i sicrhau'r cyflwyniad gorau posibl. Bydd eich plentyn yn dod yn fwyfwy ymwybodol o’r cysylltiad rhwng ieithoedd gyda ffocws penodol ar ddysgu siarad, darllen ac ysgrifennu yn Ffrangeg.

## Mathemateg a Rhifedd

Rhif yw ein prif yrrwr ac mae’r sgiliau yma yn cael eu hymarfer yn gyson trwy brofiadau dysgu bywyd go iawn o fewn cyd-destunau megis mesur, defnyddio data, arian, algebra a geometreg. Hyd yn oed ym mlynyddoedd olaf y cynradd, rydym yn defnyddio llawer o offer ac adnoddau ymarferol a dulliau lluniadol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth y plant cyn symud ymlaen at ddulliau ysgrifenedig. Nid cael yr ateb yn gywir un unig sy’n bwysig – rydym yn annog y plant i drafod eu gwaith, egluro beth wyddant neu beth helpodd ac i ddefnyddio dulliau amrywiol neu weithrediadau gwrth droi i wirio eu gwaith. Am wybodaeth bellach, gweler y fframwaith rhifedd ar wefan yr Ysgol.

## Thema

Ein thema'r tymor yma yw ‘Tywydd a Thrychinebau.’ Prif yrrwr y tymor bydd dyniaethau gan ganolbwyntio ar ymholi ac archwilio efo cyswllt i wyddoniaeth a thechnoleg. Bwriad y thema yw ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol ac i wneud yn hunanymwybodol â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. Dysgwn am ein byd naturiol a sut mae’n amrywiol a deinameg, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol a bod cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. gwahanol ffyrdd. Byddwn hefyd yn creu gorsaf Meterolegol a phob grŵp yn cyflwyno elfen gwahanol.

## Iechyd a Lles:-

Yn ystod sesiynau ymarfer corff, byddwn yn astudio gymnasteg. Themau Jigso y tymor yma yw: **‘Fi yn fy myd’ a ‘Dathlu gwahaniaethau’**



## Dosbarth: Branwen

## Blwyddyn 6

## Pethau i ‘w Cofio

Llyfrau darllen adref Dydd **Gwener** ac yn ôl POB dydd Llun gyda chofnod.
Cit ymarfer corff ar Ddydd **Iau**. Cofiwch i wisgo cit ir ysgol
Dillad coedlan pob yn ail Dydd **Llun** yn dechrau **9/9/24**
Prosiect Stronger Roots (Parc Penallta) yn dechrau **1/10/24** (angen gwisg goedlan)
Defnyddio Trydar (X) er mwyn danogs gwaith neu llwyddiannau



www.ysgolpenalltau.com    ysgolpenalltau@sch.caerphilly.gov.uk    @penalltau    01443 862974